



Polisi Cyfle Cyfle Cyfartal

Statws: Statudol

Nod ac Amcanion

Ein nod yn Ysgol Gymraeg Trelyn yw cynnig cyfle cyfartal i bob disgybl ac aelod o staff ymhob agwedd o fywyd yr ysgol heb wahaniaethu yn erbyn unrhyw un, staff na ddisgyblion, ar sail rhyw, hil, lliw croen, anabledd, crefydd, cenedl, dosbarth cymdeithasol, tras ethnig neu genedligrwydd.

Mae hyn yn unol â Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, ac mae'n ymwneud â gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae pob disgybl ac aelod o staff o'r un gwerth, a rhaid i ni osod yr un gwerth ar alluoedd, talentau a sgiliau pob unigolyn sydd o dan ein gofal.

Sylweddolwn fod peth gwahaniaethu yn erbyn pobl yn dal i fodoli mewn cymdeithas a bod hyn yn gwneud niwed parhaol i hyder, dyheadau a chyrhaeddiad y mwyafrif o blant. Rhaid i ni fel ysgol esblygu a newid oherwydd hyn.

Trwy gyfrwng yr addysg a ddarperir yn ein hysgol rydym yn hybu'r egwyddor o degwch a chyfiawnder i bawb ac rydym yn sicrhau bod cyfle cyfartal gan yr holl ddisgyblion i fanteisio ar yr ystod o gyfleoedd a gynigir gan ein hysgol.

Rydym yn herio gwahaniaethu bob tro y mae'n digwydd.

Dathlwn amrywiaethau diwylliannol sydd yn ein cymuned a dangoswn barch tuag at bob grŵp lleiafrifol. Gwn bod gwahaniaethu yn digwydd oherwydd anwybodaeth a hunan ddelwedd isel. Yn ein profiadau dysgu rydym yn amcanu i annog agweddau cymdeithasol iach a pharch at eraill wrth hybu parch at farn yr unigolyn.

Hawl pob plentyn yw derbyn yr addysg orau y gall ein hysgol ei darparu, a manteisio ar yr holl weithgareddau addysgiadol a gynigir gennym. Nid ydym yn caniatáu unrhyw ffurf ar wahaniaethu. Os bydd digwyddiad o wahaniaethu yn yr ysgol byddwn yn gweithredu'n syth er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.

O ran anabledd, cyd-weithiwn gyda'r Awdurdod Lleol i addasu ein cynlluniau a'r adeilad gymaint âg sy'n bosib oherwydd natur ein hadeilad ysgol.

Yn Ysgol Gymraeg Trelyn ymdrechwn i greu awyrgylch groesawgar i grwpiau lleiafrifol. Mae'r pynciau a astudir gan y disgyblion yn annog dealltwriaeth o ddiwylliannau gwahanol, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y gwaith a gaiff ei arddangos yn yr ysgol.

Mae ein cwricwlwm yn adlewyrchu'n hagweddau a'n gwerthoedd, a'r parch sydd gennym tuag at grwpiau ethnig lleiafrifol. Felly, er enghraifft wrth drafod gwyliau crefyddol edrychwn ar bwysigrwydd Diwali i'r Hindŵ a'r Sikh.

Os bydd unrhyw un o fewn ein hysgol yn dioddef oherwydd gwahaniaethu byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w cynorthwyo i oresgyn eu problemau.

Rydym yn sicrhau bod y recriwtio, y cyflogi, y systemau hyfforddi a dyrchafiad yn deg i bawb, ac yn darparu cyfle i lwyddo.

Rôl y llywodraethwyr

Mae'r polisi hwn yn datgan ymrwymiad y corff llywodraethol i gyfle cyfartal, a bydd yn parhau i wneud y cyfan y gall er mwyn sicrhau bod holl aelodau cymuned yr ysgol yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.

- Mae'r corff llywodraethol yn ceisio sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu yn erbyn pobl âg anawsterau wrth iddynt ymgeisio am swyddi yn yr ysgol.
- Mae'r llywodraethwyr yn gwneud yr hyn a allant er mwyn sicrhau bod safle'r ysgol yn briodol âg anableded corfforol.
- Yn eu hadroddiad blynyddol bydd y corff llywodraethol yn cyfeirio at y trefniadau a wneir ar gyfer disgyblion anabl.
- Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw blentyn tra y bydd yn yr ysgol. Caiff pob plentyn manteisio ar ystod eang y cwricwlwm.
- Mae'r rheolau ynglŷn â'r wisg ysgol yn cael eu cymhwyso yn gyfartal i fechgyn a merched.
- Pan fydd crefydd y plentyn yn cael effaith ar y wisg ysgol, yna bydd yr ysgol yn delio â'r mater yn dynner ac yn parchu traddodiadau diwylliannol y plentyn.

Rôl y pennaeth

- Gweithredu'r polisi cyfle cyfartal a bydd y corff llywodraethol yn cefnogi'r broses.
- Sicrhau bod y staff yn ymwybodol o bolisi cyfle cyfartal yr ysgol, a sicrhau bod yr athrawon yn gweithredu'r argymhellion yn deg ym mhob achos.
- Sicrhau bod panel apwyntio yn talu sylw priodol i'r polisi, fel na fydd gwahaniaethu yn digwydd wrth apwyntio staff i'r ysgol.
- Wrth ddatblygu'r cwricwlwm bydd y pennaeth yn hyrwyddo'r egwyddor o gyfle cyfartal, ac yn hybu parch at eraill ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Caiff pob un plentyn ymuno âg unrhyw weithgaredd allgyrsiol hefyd.
- Bydd y prosectws yn cynnwys datganiad fod yr ysgol wedi ymrwymo yn llawn i gyfle cyfartal
- Mae'r Pennaeth â chyfrifoldeb arbennig dros fonitro a hyrwyddo cyfle cyfartal
- Sicrhau bod cofrestrï yn cael eu cadw yn nhrefn dyddiadau geni neu drefn y wyddor heb wahaniaethu ar sail ryw
- Nid yw'r ddau ryw yn cael eu gwahanu ar y grisiau, yn y coridorau nac yn rhesi ymgynnull.

Rôl yr athrawon

- Mae'r athrawon yn ein hysgol yn ystyried bod pob math o wahaniaethu yn erbyn unrhyw un yn annerbyniol.
- Os bydd athrawon yn dyst i weithred o wahaniaethu byddant yn gwneud popeth sydd o fewn eu gallu i gynorthwyo'r plentyn sy'n dioddef. Os bydd yr achos yn parhau dros gyfnod o amser, yna bydd yr athrawon yn cael gair gyda'r pennaeth, a bydd y pennaeth yn hysbysu'r rhieni. Fe fydd pob digwyddiad yn cael ei gofnodi.
- Cynorthwyo pob disgybl a chreu ymdeimlad o ymddiriedaeth a pharch tuag at bawb.
- Wrth ganmol, gwobrwyo a dathlu llwyddiant plant byddwn yn atal achosion o wahaniaethu.

Rôl y Rhieni

- Mae rôl rhieni yn bwysig er mwyn annog eu plant i ddangos parch tuag at eraill a herio gwahaniaethu. Os bydd rhieni'n gofidio bod eu plentyn yn dioddef o wahaniaethu, neu'n amau bod eu plentyn yn dangos ymddygiad gwahaniaethol, dylent hysbysu'r athro/athrawes dosbarth yn syth.
- Os oes gwahaniaethu yn digwydd dylai'r rhieni a'r staff cytuno ar amser digonol i ymchwilio i'r mater a delio'n effeithiol gyda'r problemau, fel bo'r rhieni yn deall pryd y gallan nhw ddisgwyl cael ymateb.
- Dylai rhieni'r plentyn sy'n cael ei amau o wahaniaethu cael rhan gadarnhaol yn y strategaethau er mwyn datrys y mater.
- Mae cyfrifoldeb ar y rhieni i gefnogi polisi cyfle cyfartal yr ysgol, ac annog eu plant i fod yn aelodau cadarnhaol o'r ysgol.
- Dylai rhieni fod yn ymwybodol y gallant drafod eu gofidiau gyda staff yr ysgol eto os ydynt yn teimlo bod y digwyddiadau yn parhau.

Dysgu Gwahanol Bynciau

Yn gyffredinol, mae arfer dda o safbwynt cyfle cyfartal yn golygu gwneud pob pwnc yr un mor ddeniadol yng ngolwg bechgyn a merched.

O bryd i'w gilydd all sefyllfa godi lle bydd angen i'r athro/athrawes drafod materion cyfle cyfartal gyda'r disgyblion sydd yn y dosbarth.

Rhaid annog hyn gan drin y fath drafodaethau fel rhai hanfodol i ddatblygiad Iechyd a lles ein disgyblion.

Pennaeth: Mrs Liz Owen



Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr Nick Waythe _____

Adolygwyd: 29/03/2022